CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

ENTRY LEVEL CERTIFICATE

712/03-A

**Tystysgrif Lefel Mynediad**
***Entry Level Certificate***

**CYMRAEG AIL IAITH**
***WELSH SECOND LANGUAGE***

20 & 21 Mawrth 2006
*20 & 21 March 2006*

**Arholiad Llafar**
***Oral Examination***

**Copi'r Athro/Athrawes**
***Teacher's Copy***

**Dylid recordio arholiadau llafar sampl o ymgeiswyr ar gasét a'u hanfon at yr arholwr allanol erbyn 29 Mawrth fan bellaf. Dylid cofnodi marciau'r arholiad ar ffurflen CAI (3).**

*Rhaid i* **bob** *ymgeisydd mewn canolfan sefyll prawf llafar. Dylid recordio sampl o* **chwech** *o ymgeiswyr sy'n dangos amrediad eang o farciau. Mewn canolfannau lle ceir mwy nag un grŵp dysgu, rhaid wrth sampl o 6 ymgeisydd o* **bob** *grŵp, gan ddefnyddio casét gwahanol ar gyfer pob grŵp.*

*Os oes rhaid defnyddio mwy nag un sesiwn i arholi, rhaid sicrhau bod y deunydd yn cael ei gloi a'r cynnwys yn cael ei gadw'n gwbl gyfrinachol. Mewn canolfannau lle ceir mwy nag un grŵp dysgu, dylai'r grwpiau sefyll yr arholiad* **ar yr un diwrnod**.

*Mae* **tair** *rhan i'r arholiad.* **Ni ddylid treulio mwy na 5 munud ar bob rhan o'r arholiad.**

*Hyd: tua 15 munud.*

**1.** **Yr ymgeisydd yn cyflwyno ei hun.** [10]

Dylai'r ymgeisydd geisio gwneud hyn **heb gymorth yr athro/athrawes** gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar ei gopi o'r arholiad. **Os bydd angen** gall yr athro/athrawes ei brocio trwy ofyn cwestiynau, **ond pwysleisir yr angen i'r ymgeisydd allu siarad yn rhydd cyn gwneud hyn**.

**2.** **Sgwrsio am bwnc.** [10]

Dylid cael sgwrs â'r ymgeisydd am un o'r meysydd cynnwys yn y cwrs, sef BYD GWAITH. Dylid anelu at gael sgwrs **ystyrlon** a **datblygu'r** cwestiynau a ganlyn:

Wyt ti'n gweithio ar ddydd Sadwrn/ar ddydd Sul?

- Ble?
- Beth rwyt ti'n wneud?
- Faint o arian rwyt ti'n gael?

Wyt ti eisiau gweithio yr haf yma?

- Yn gwneud beth? / Pam ddim?

Ble rwyt ti wedi bod ar brofiad gwaith gyda'r ysgol?

- Am faint o'r gloch roeddet ti'n dechrau yn y bore?
- Beth roeddet ti'n wneud?
- Beth roeddet ti'n wisgo?
- Oeddet ti'n hoffi'r gwaith?

Wyt ti'n mynd i'r Coleg y flwyddyn nesaf?

- I astudio beth? / Beth rwyt ti eisiau wneud?
- Pa waith rwyt ti eisiau wneud ar ôl y Coleg / Ble rwyt ti'n byw rŵan/nawr?
- Yn . . . rwyt ti eisiau gweithio hefyd?
- Pam? / Ble rwyt ti eisiau gweithio?

**3.** **Sgwrsio am stori.** [10]

Yma anelir at gael sgwrs am y stori sydd yn y set o luniau gyferbyn -

DIWRNOD CARYS A MEGAN AR Y TRAETH.

Dylid dechrau'r sgwrs trwy ofyn cwestiynau megis -

Sut mae'r ddwy yn teithio i'r traeth?

Am faint o'r gloch maen nhw'n cyrraedd?


Hwyl!
Wow!
Sut mae?Rhys ydw i a dyma Dan.
Carys ydw i.
Megan ydw i.
Mynd i'r môr?
Ie, siwr.
Dim diolch. Dod i'r ffair?
O na! Y tywel a'r dillad!